@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk l www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff – Partneriaeth y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) (Sesiynau mynediad agored)

Eleni fe wnaethon ni nodi bod angen datblygu perthnasoedd cryfach â'n hysgolion uwchradd ac roedden ni eisiau trefnu rhagor o ddarpariaeth a chynyddu cyfranogiad pobl ifainc, felly fe wnaethon ni ddatblygu cynlluniau i weithio'n agosach gyda charfan YEPS RhCT. Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn darparu Gwasanaeth Ieuenctid statudol ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Mae ganddo weithlu o staff cymwys sy'n cynnig y gwasanaeth yma, a chynigir ei ddarpariaeth amrywiol a'i gefnogaeth trwy amrywiaeth o gyfryngau a rhaglenni. Ers i'n partneriaeth ddechrau, rydyn ni wedi creu prosiectau sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cefnogi llais disgyblion, datblygu arweinyddiaeth, a chynnig gweithgareddau corfforol mewn clybiau ieuenctid.

Yn yr haf eleni daethon ni ynghyd i fynd i'r afael â phryderon trigolion am ddiffyg mynediad am ddim at ein cyfleusterau cae artiffisial newydd. Ynghyd â'r YEPS a Hamdden am Oes, cytunon ni ar gynllun a oedd yn darparu sesiynau mynediad agored am ddim ar dri chae 3G y Cyngor. Roedd y sesiynau yn ein galluogi i greu mannau diogel a darparu offer a gweithlu fel y gallai pobl ifainc gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys chwaraeon, sesiynau ffitrwydd, sesiynau lles a gweithdai iechyd meddwl. Doedd gan y sesiynau ddim strwythur fel y gallai'r bobl ifainc arwain a chael hwyl gyda ffrindiau a chyfoedion o'r ysgol.

Ers y sesiynau mynediad agored, mae'r niferoedd wedi cynyddu mewn clybiau ieuenctid yn gyffredinol ac mae mwy o bobl ifainc yn defnyddio darpariaeth YEPS, a fydd, yn y tymor hir, gobeithio, yn lleihau adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydyn ni'n bwriadu cynnig y sesiynau yma eto yn ystod gwyliau hanner tymor y gwanwyn a'r haf, yn ogystal â gwyliau'r haf bob blwyddyn, ac yn gobeithio cynnwys mwy o gyfleusterau yn y prosiect.

> *"Mae'r bartneriaeth yma wedi rhoi cyfle i bobl ifainc ddefnyddio cyfleusterau hamdden yn rheolaidd ac yn ddiogel. Mae sicrhau mynediad i'r cyfleusterau dros amser hir wedi gwella lles y bobl ifainc ac wedi rhoi cyfleoedd iddyn nhw fod mewn mannau diogel, nid mewn trafferthion, a mwy o gyfleoedd i gadw'n heini."*
> Cydlynydd YEPS

**146** o gyfranogwyr

Mae **67%** yn teimlo'n iachach

**79%** yn bwriadu parhau i gymryd rhan

**9** o sesiynau

Mae **82%** yn teimlo'n fwy hyderus

**65%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Mae **83%** yn teimlo'n hapusach

Mae **77%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF

52728-15